Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 21 Ebrill 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| M C Child | J P Curtice | S J Gallagher |
| P R Hood-Williams | E T Kirchner | G J Tanner |
| T M White | | |

**Hefyd yn bresennol:**
Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA)

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Moore | Directorate Lawyer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L V Walton

---

**25 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**26 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi – Pobl a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

**27 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau i Oedolion, gyda chefnogaeth Anthony Richards, Rheolwr Datblygu'r Strategaeth Tlodi a'i Atal, adroddiad "Er Gwybodaeth" i fanylu ar y cynnydd o ran datblygu Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe a chyflwyno diweddariad ar y Prosiect Gwirfoddoli Rhanbarthol.

Roedd Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA), Rheolwr Canolfan Wirfoddoli Abertawe hefyd yn bresennol i gynorthwyo’r Pwyllgor wrth ddatblygu'r Strategaeth Gwirfoddoli.

Amlinellodd yr adroddiad:

- Y cefndir;
- Mapio cyfleoedd gwirfoddoli presennol a chyfleoedd gwirfoddoli posib a gynhelir gan Gyngor Abertawe;
- Datblygu Strategaeth Gwirfoddoli;
- Prosiect Gwirfoddoli Rhanbarthol;
- Y camau nesaf

Trafododd y pwyllgor:

- Elfen ddiogelu gwirfoddoli, yn enwedig i'r rheini sy'n agored i niwed, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, goruchwylio gwirfoddolwyr gan reolwyr, asesu risg rolau, sesiynau sefydlu a hyfforddiant parhaus i wirfoddolwyr a goruchwylwyr/rheolwyr;
- Dylid gwneud gwirfoddoli mor hawdd â phosib a'i annog i'r rheini sy'n dymuno gwirfoddoli;
- Dylid nodi nifer y gwirfoddolwyr fel bod gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi ac egwyddorion y strategaeth yn cael eu gwreiddio yn yr Awdurdod;
- Monitro perfformiad a rhannu arfer da;
- Wythnos y Gwirfoddolwyr 1-7 Mehefin – annog cyfathrebu i ddenu gwirfoddolwyr newydd;
- Cymorth i wirfoddolwyr adeiladu dulliau effeithiol o ran dilyniant/cyfleoedd gwaith yn y dyfodol;
- Rôl Cyngor Abertawe yn y ddarpariaeth wirfoddoli ranbarthol ehangach.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 28 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Gavin Evans, Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc ddiweddariad llafar ar y Strategaeth Gofalwyr Ifanc, fel a ganlyn:

- Ers y cyfarfod diwethaf roedd y Grŵp Partneriaeth wedi'i ailffurfio gyda'r Cylch Gorchwyl newydd fel y "Grŵp Llywio Gofalwyr Ifanc", gydag aelodaeth ddiwygiedig i gynnwys y Cynghorydd Ceri Evans, Cadeirydd y PDP Pobl;
- Datblygu'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc oedd y brif flaenoriaeth o hyd;
- Roedd y YMCA wedi sicrhau cyllid i benodi swyddog penodedig i gefnogi'r Gofalwyr Ifanc;
- Byddai Fforwm neu Fwrdd Gofalwyr Ifanc yn cael ei greu lle byddai eu barn ar gyd-gynhyrchu'r Strategaeth Gofalwyr yn cael ei thrafod. Mae'n bwysig ei fod yn cael ei arwain gan y bobl ifanc a bod rhwystrau perthnasol yn cael eu dileu;
- Roedd yr amserlen ar gyfer cwblhau'r strategaeth yn debygol o fod ym mis Medi ond cytunwyd ei fod yn bwysig cael pethau'n iawn yn hytrach na rhuthro'r broses;
- Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o awgrymu syniadau blaengar a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol ar gyfer datblygu'r Strategaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog dros Gymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc am y diweddariad.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**29 Cynllun Gwaith 2020-2021.**

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2021.

Yn ogystal â pharhau â'r gwaith cyfredol mewn perthynas â'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc a'r Strategaeth Gwirfoddoli, roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod â Swyddogion i drafod yr eitem "Cyflogadwyedd" a awgrymwyd gan y Cynghorydd Alyson Pugh, Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell. Byddai'r cynllun Cam Nesa a oedd yn canolbwyntio ar y rheini nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Chyflogaeth (NEET) yn dod i ben a byddai'n gadael bylchau ynghylch pa mor agored i niwed y mae rhai unigolion. Gwahoddwyd y swyddogion i ddod i'r cyfarfod nesaf ym mis Mehefin a bwriedir i'r Pwyllgor ddechrau ar y pwnc gwaith hwn o fis Gorffennaf 2021.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.53 pm

**Cadeirydd**